

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	9 Rhagfyr, 2014
PWNC	Apps iPad a Hyfforddiant
PWRPAS	Adrodd ar ddatblygiadau mewn trefniadau hyfforddiant i wneud defnydd gwell o'r iPad ac "apps" i gefnogi'r defnydd
AWDUR	Huw Ynyr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid

Hyfforddiant a datblygiadau perthnasol i'r defnydd o'r iPad

1. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddynt drafod eu dymuniad i ddatblygu eu defnydd o'r ipads ymhellach, gan eu galluogi i'w defnyddio i fwy nag e-byst a chalendrau yn unig. I'r perwyl hwn, awgrymodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid fod "apps" ar gael a fyddai'n galluogi Aelodau i ddefnyddio'r iPad ar gyfer ffwythiannau fel prosesydd geiriau a thaenlenni.
2. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n fuddiol treialu'r apps cyn eu rhannu â phawb er mwyn asesu - a oes eu hangen, pa mor ddefnyddiol ydynt a pha mor hawdd ydynt i'w defnyddio. I'r perwyl hwn, mae grŵp o 5 wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y peilot, yn gymysg o Aelodau a swyddogion. Mi fydd y Ddesg Gymorth yn parhau i gefnogi'r Aelodau a'r swyddogion gyda dyletswyddau dyddiol, fodd bynnag, nid oes modd darganfod capasiti rhydd i gefnogi'r gweithgaredd yma'n uniongyrchol.
3. Rwy'n argymhell bod yr hyfforddiant yn digwydd law yn llaw gyda dosbarthu'r "apps" fel bod cymorth ac arweiniad ar gael i ddefnyddio'r pecynnau'n effeithiol. Fe fydd y gwasanaeth TG yn dosbarthu'r "apps" gyda gosodiadau diogelwch MobileIron, ond mae'n ofynnol i ddiweddarau MobileIron o Efydd i Aur, sy'n rhan o ddiweddariad corfforaethol.
4. Fe fydd yr "apps" yn cael eu dosbarthu gyda MobileIron Gold yn y Flwyddyn Newydd.
5. Yn ychwanegol, mae rhai aelodau wedi nodi eu dymuniad i dderbyn hyfforddiant pellach ar yr i-pads er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r teclyn. Mae sgysiau wedi eu cynnal gyda Robin Williams, Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug, sy'n ddefnyddiwr brwd o dechnoleg Apple ac mae sesiynau hyfforddi i'w cynnal wedi adolygiad o'r costau a chynnwys yr hyfforddiant.
6. Mae pecyn hyfforddi wedi ei adolygu gyda Robin Williams, Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug, gyda'r pynciau canlynol yn cael eu cynnig ar gyfer gwneud defnydd gwell o'r iPad:
 - Pages (prosesydd geiriau)

- Keynote (cyflwyno)
 - Numbers (taenlen)
 - iBooks
 - Calendar
 - Facetime
 - Camera
 - Photos
 - Contacts
 - Notes
 - Cysill (gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg)
 - Settings (yn benodol ar gyfer galluogi gosodiadau Cymraeg)
 - Diogelwch a Phreifatrwydd
 - Twitter
 - Facebook
7. Fe all yr hyfforddiant fod yn gymysgedd o hyfforddiant yn y dosbarth ac o bell, gyda'r safle ar gyfer hyfforddiant yn y dosbarth i'w gadarnhau, fodd bynnag, mae'n rhaid nodi bod gan Ysgol Gynradd Llanrug adnoddau gwych ar gyfer cynnal y math yma o hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant o bell yn cael ei becynnu ar iTuneU, sef pecyn dysgu a hyfforddi sy'n cael ei gyflenwi gan Apple ac ar gael ar yr iPad.
8. Costau hyfforddi – fe fydd angen rhyddhau Robin Williams o'i ddyletswyddau dysgu ac fe fydd angen cyflogi athro/athrawes llanw er mwyn yn ystod y cyfnod yma.

Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid